



- ◆ Mae ffabrigau tecstil a chhydrannau ar gael ar *ffurfiau stoc* sydd ar gael yn hawdd i ddylunwyr, gweithgynhyrchwyr a phobl sy'n gwnïo gartref.
- ◆ Wrth sôn am ffabrigau tecstilau, mae ffurfiau stoc yn cyfeirio at led y ffabrig sy'n seiliedig ar led y ffrâm wau y'i cynhyrchwyd arni.
- ◆ Y lledau safonol ar gyfer ffabrigau tecstil yw:
 - ◇ 90cm (ar gyfer leinin a rhyngwynebu)
 - ◇ 115cm
 - ◇ 150cm
 - ◇ 200cm
 - ◇ 240cm
- ◆ At ddibenion llunio, mae 'chwarteri tew' sy'n mesur 45cm x 55cm, ar gael yn hawdd mewn bwndeli o liwiau a phrintiau cyfatebol.
- ◆ Ymysg yr enwau cyffredin ar ffurfiau stoc ar ffabrigau tecstil mae: denim, melfed, siambre, shiffon, melfaréd, poplin cotwm, satin, brethyn caerog a jersi i enwi rhai, ond ceir llawer mwy.
- ◆ Mae pobl sy'n gwnïo gartref yn prynu ffabrigau tecstil oddi ar y rholyn mewn darnau metr o hyd neu mewn lluosrifau o 10cm.



Mae ffabrigau tecstil ar gael yn hawdd oddi ar y rholyn.

Cost

- ◆ Mae cost darn o ffabrig yn dibynnu ar ba mor llydan ydyw, y cynnwys ffibrau a ffynhonnell y ffibrau, y math o wehyddiad ac unrhyw orffeniadau a ddefnyddiwyd (os o gwbl).
- ◆ Mae ffurfiau stoc ar ffabrigau a chhydrannau yn symleiddio cost cynhyrchion.
- ◆ Mewn diwydiant, caiff ffabrigau a chhydrannau eu prynu mewn swmp (niferoedd enfawr) fel y byddant yn rhatach na'r hyn y gall unigolion ei brynu mewn siop ffabrig.
- ◆ Mae'n rhatach i weithgynhyrchwyr arbenigol fasgynhyrchu ffurfiau stoc neu feintiau a dyluniadau safonol ar gyfer darnau cydrannol.
- ◆ Mae cost unrhyw gynnyrch yn seiliedig ar gyfanswm costau'r *holl ddeunyddiau crai*: faint o ffabrig a gaiff ei ddefnyddio a faint o bob darn cydrannol, ran gynnwys edafedd.
- ◆ Wrth gyfrifo cost deunyddiau unrhyw gynnyrch, dylech ystyried:
 - ◇ Y lled ffabrig mwyaf economaidd i'w ddefnyddio.
 - ◇ Mae torri ar osgo yn arwain at fwy o wastraff.
 - ◇ Dylid gosod templedi fel y byddant yn wynebu'r un ffordd ar ffabrigau peil a ffabrigau â phatrymau unffordd.
 - ◇ Cydweddu patrymau sic, printiau a streipiau.



Wrth osod templedi, mae angen sicrhau bod modd cydweddu patrymau streipiau, fel y dangosir ar y crys-T yn y llun. Pe na chai'r streipiau eu cydweddau ar sêm ochr, byddai golwg y crys-T yn dioddef.

Ffuriau stoc ar gyfer cydrannau

Ffasninau

- ◆ Ffasninau sip ar gael mewn gwahanol hydroedd, pwysau, lliwiau a deunyddiau, e.e. neilon neu fetel, a gwahanol fathau, e.e. penagored, dwy ffordd, anweladwy.
- ◆ Botymau: gwahanol feintiau, lliwiau, siapiau, â phatrwm neu blaen a gwahanol ddeunyddiau, e.e. pren, neilon neu fetel. Gellir argraffu botymau mewn 3D.
- ◆ Byclau: ffasnin diogel mewn gwahanol feintiau, siapiau, lliwiau a deunyddiau megis pres, pren neu blastig. Gellir eu hargraffu mewn 3D.
- ◆ Felcro: ffasnin diogel lle mae dwy ochr gyda gweadau gwahanol cydgloi â'i gilydd.
- ◆ Llygadennau: cylchau metel neu blastig wedi'u mewnosod yn y ffabrig. Gellir rhoi rhuban drwyddynt i greu cwlwm.
- ◆ Stydiau gwasg: Mae un ochr o styd gwasg yn clicio i mewn i'r ochr arall, felly maent yn hawdd i'w defnyddio.

Edafedd

Defnyddir gwahanol edafedd at bwrpasau gwahanol:

- ◇ I wnïo ffabrigau â'i gilydd – edau gryf yw edau bolyester, ac mae'n addas at y rhan fwyaf o ddibenion. Defnyddir edau dewach ar gyfer pwytho top.
- ◇ At ddibenion addurn – mae edafedd mwy sgleiniog yn ychwanegu at frodwaith addurnol.
- ◇ At ddibenion ymarferol – mae edafedd dargludol yn cludo trydan.

Trimiau

- ◆ Gall trimiau fod yn addurnol: les, rhuban, plethwaith, gleiniau, secwinau.
- ◆ Gall trimiau fod yn ymarferol: tapiau, cordiau, elastigau, walbonio a deuodau sy'n allyrru golau (LED).